Cydlynydd Digwyddiadau Her a Chymunedol– Disgrifiad Swydd

Cyflog: £25,000 - £27,500 y flwyddyn

Oriau Gwaith: Amser Llawn (37.5 awr yr wythnos)

Cytundeb: 24 mis gydag estyniad yn seiliedig ar yr incwm a gyflawnwyd

Crynodeb:

Mae Elusen Aloud yn chwilio am Cydlynydd Digwyddiadau Her a Chymunedol i weithio ledled Cymru, gan ein helpu i godi arian drwy roddion. Bydd hyn yn ein galluogi i ddarparu ein gweithgareddau canu grŵp am ddim i bobl ifanc ledled Cymru.

Bydd y Cydlynydd Digwyddiadau Her a Chymunedol yn aelod rhagweithiol o'r Tîm Datblygu, gan lwyddo i ddenu rhoddion a chefnogaeth gan aelodau'r cyhoedd a rhanddeiliaid presennol. Bydd yn gyfrifol am drefnu digwyddiadau her, digwyddiadau cyfranogiad trydydd parti a digwyddiadau codi arian dan arweiniad gwirfoddolwyr yn y gymuned. Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn gweithio gyda'r Rheolwr Datblygu, Rheolwr Cysylltiadau, Ysgrifennwr Ceisiadau a Chynnwys a Rheolwyr Prosiect i gyfrannu at y targed codi arian cyffredinol o £725,000.

Bydd gan ddeiliad y swydd ystod eang o gyfrifoldebau a fydd yn gofyn am fenter a hyblygrwydd sylweddol, gan rymuso aelodau'r cyhoedd i gymryd rhan mewn digwyddiadau codi arian neu drefnu eu digwyddiadau eu hunain, a hynny mewn ffordd ddiogel ac effeithiol.

Mae'r Cydlynydd Digwyddiadau Her a Chymunedol yn rhan o'r Tîm Datblygu, a'r Rheolwr Datblygu fydd y rheolwr llinell. Bydd yn gyfrifol am recriwtio a chynorthwyo gwirfoddolwyr i hybu gweithgareddau codi arian.

Bydd gan yr ymgeisydd llwyddiannus:

- O leiaf 2 flynedd o brofiad yn cynhyrchu incwm mewn rôl codi arian neu werthu sy'n ymwneud â'r cyhoedd
- Sgiliau rhyngbersonol rhagorol, gyda hanes blaenorol cryf o ddefnyddio iaith a chynnwys perswadiol i ymwneud ag aelodau'r cyhoedd a hyrwyddwyr trydydd parti
- Parodrwydd i weithio gyda gwirfoddolwyr, gyda dealltwriaeth o bwysigrwydd cefnogwyr
- Dealltwriaeth o gyllidebau, gyda'r gallu i reoli cofnodion prosiectau yn gywir
- Angerdd dros gefnogi'r celfyddydau a phobl ifanc yng Nghymru
- Hunan-gymhelliant, uchelgais a'r gallu i weithio'n dda yn annibynnol neu fel rhan o dîm

Tasgau a Chyfrifoldebau

1. **Rheoli Digwyddiadau Her a Thrydydd Parti**

- Nodi cyfleoedd i gefnogwyr Aloud gymryd rhan mewn digwyddiadau trydydd parti, fel Hanner Marathon Caerdydd, Teithiau Cerdded Rhyngwladol neu Awyrblymio Noddedig

- Cynllunio a rheoli digwyddiadau her, gan sicrhau eu bod yn cael eu cyflawni ar amser ac o fewn y gyllideb
- Defnyddio menter i fwrw ati i hyrwyddo a rhoi cyhoeddusrwydd i ddigwyddiadau Aloud a Thrydydd Parti
- Cynorthwyo aelodau'r cyhoedd i gyrraedd eu targed codi arian drwy ddefnyddio deunyddiau codi arian yn ôl yr angen, h.y. crysau-t, bwcedi, baneri

2. Cynorthwyo a Hwyluso Digwyddiadau Cymunedol

- Grymuso aelodau'r cyhoedd i gynnal eu digwyddiadau codi arian eu hunain, fel Boreau Coffi, Teithiau Cerdded Noddedig a Rafflau, gan sicrhau bod gweithgareddau'n cael eu cynnal yn unol â Rheoliadau Iechyd a Diogelwch, Codi Arian a Diogelu
- Bod yn ymwybodol o ddigwyddiadau cymunedol allanol i fanteisio'n llawn ar gyfleoedd i ymgysylltu neu hyrwyddo
- Gweithio gyda'r Rheolwr Cysylltiadau, Rheolwyr Prosiect a'r Fforwm Ieuenctid i ddatblygu perthynas ag aelodau'r cyhoedd, cefnogwyr unigol, grwpiau cymunedol a busnesau lleol er mwyn denu cymaint â phosibl o roddion o weithgareddau yn eu cymuned
- Gweithio gyda'r Tîm Artistig i ddatblygu ffyrdd i rieni cyfranogwyr gefnogi Aloud
- Cynorthwyo aelodau'r cyhoedd i gyrraedd eu targed codi arian drwy ddefnyddio deunyddiau codi arian yn ôl yr angen, h.y. crysau-t, bwcedi, baneri
- Gweithio gyda gwirfoddolwyr i ddosbarthu gwybodaeth berthnasol am ein gwaith a chyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau a pherfformiadau elusennol ehangach

3. Manteisio'n Llawn ar Roddion Rhieni

- Gweithio gyda'r Rheolwr Datblygu, y Rheolwr Cysylltiadau a'r Tîm Artistig i nodi ac annog rhieni i ymwneud â digwyddiadau Aloud / trydydd parti a'u cefnogi
- Cynorthwyo i ddatblygu camau i gasglu data rhieni a manteisio'n llawn ar gyfleoedd i gyfathrebu â rhieni am ffyrdd y gallent gefnogi'r elusen

4. Ar draws pob maes gwaith

- Gweithio gyda'r Rheolwr Datblygu a'r Tîm Datblygu i nodi a dilyn cyfleoedd newydd i godi arian a chodi proffil ein gwaith
- Datblygu a gweithredu strategaethau i hyrwyddo digwyddiadau her a chymunedol, gan ddefnyddio ystod o offer marchnata digidol a thraddodiadol
- Gweithio gyda'r Ysgrifennwr Cynigion a Chynnwys i ddatblygu llenyddiaeth a gwybodaeth farchnata o ansawdd uchel i gefnogwyr
- Creu cyswllt â chefnogwyr a rhanddeiliaid drwy alwadau ffôn, e-byst, a dulliau cyfathrebu eraill, gan sicrhau bod eu hanghenion yn cael eu diwallu a'u bod yn cael gwybod am effaith eu rhoddion
- Y gallu i reoli eich cyllidebau eich hun a chadw cofnodion cywir
- Dirprwyo tasgau i wirfoddolwyr Aloud pan fo'n briodol
- Gweithio gyda thîm a gwirfoddolwyr Aloud i godi ymwybyddiaeth o gyfleoedd elusennol ehangach yn effeithlon
- Sicrhau bod pob cefnogwr yn cael profiad cadarnhaol wrth godi arian i Elusen Aloud, a theimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi am ddewis cefnogi ein gwaith

Sgiliau a Phrofiad

	Hanfodol	Dymunol
Profiad blaenorol fel rhan o dîm codi arian prysur, yn ddelfrydol mewn rôl sy'n ymwneud â'r cyhoedd	✓	
Hanes blaenorol o gynhyrchu incwm o ddigwyddiadau codi arian cymunedol a/neu ddigwyddiadau her	✓	
Sgiliau rhyngbersonol a chyfathrebu rhagorol, gyda'r gallu i ymwneud ag ystod eang o randdeiliaid	✓	
Y gallu i dderbyn, trin, dadansoddi a datrys ymholiadau mewn modd prydlon a phriodol, gan gyfeirio ymholiadau heb eu datrys at y person priodol	✓	
Profiad o ddefnyddio ystod o offer marchnata digidol a thraddodiadol i hyrwyddo gweithgareddau codi arian	✓	
Hyfedredd mewn pecynnau TG gyda phrofiad o ddefnyddio Microsoft Office a Canva	✓	
Trwydded Yrru Lân - bydd angen teithio'n aml o amgylch Cymru	✓	
Profiad o weithio gyda gwirfoddolwyr		✓
Profiad o weithio â sianeli'r cyfryngau cymdeithasol		✓
Dealltwriaeth o gyfreithiau, rheoliadau ac arferion gorau ym maes elusennau a chodi arian, gan gynnwys GDPR, Diogelu Data, Diogelu a thrwyddedu		✓

Manyleb Bersonol

	Hanfodol	Dymunol
Angerdd am waith Elusen Aloud ac ymrwymiad i'n cenhadaeth	✓	
Person brwdfrydig, llawn cymhelliant, sydd wedi'i ysgogi i gyrraedd targedau	✓	
Trefnus iawn, gyda sylw rhagorol i fanylion a'r gallu i reoli sawl tasg ar yr un pryd	✓	
Agwedd ragweithiol a hyblyg at waith, gyda'r gallu i weithio'n annibynnol ac fel rhan o dîm	✓	
Y gallu i fod yn greadigol a rhagweithiol	✓	
Yn barod ac yn gallu gweithio gyda'r nos ac ar benwythnosau yn ôl yr angen i gefnogi ymrwymiadau gwaith allweddol	✓	
Y gallu i gyfathrebu yn Gymraeg – yn ysgrifenedig ac ar lafar		✓

Disgwylir i bawb yn Elusen Aloud wneud y canlynol:

- Cydweithio i gyflawni'r cynllun strategol 3 blynedd
- Mynd ati i gefnogi a hyrwyddo ymrwymiad Elusen Aloud i amrywiaeth, cynhwysiant a mynediad ym mhob maes gwaith
- Cadw at holl bolisïau a gweithdrefnau Elusen Aloud ym mhob maes gwaith
- Bod yn ymrwymedig i ddatblygiad proffesiynol parhaus, gan gynnal unrhyw aelodaeth broffesiynol fel y bo'n briodol
- Rhannu gwybodaeth a sgiliau'n rhagweithiol i ddatblygu dealltwriaeth neu sgiliau cydweithwyr, Ymddiriedolwyr a gwirfoddolwyr
- Cynnal ymwybyddiaeth o sut mae eu gwaith yn effeithio ar godi arian a rhoddion unigolion
- Cynnal ymwybyddiaeth o'r cyllidebau sydd ar waith ar gyfer gweithgareddau a sicrhau y manteisir ar ffrydiau incwm
- Deall sut mae eu gwaith yn bwydo i mewn i'r Strategaethau Cyfathrebu a Chodi Arian
- Datblygu cynnwys ar gyfer y wasg a'r cyfryngau
- Cefnogi gwaith gwerthuso ac adrodd ar effaith
- Lliniaru effaith amgylcheddol eu gwaith
- Mynychu cyfarfodydd tîm, cyfarfodydd eraill y cwmni, digwyddiadau hyfforddi a mentrau yn ôl y gofyn
- Ymgymryd ag unrhyw ddyletswyddau eraill a allai fod yn ofynnol o bryd i'w gilydd gan yr elusen (Mae Elusen Aloud yn cael ei rhedeg gan dîm bach sy'n cyflawni ystod eang o weithrediadau ac weithiau efallai y bydd angen i ddeiliad y swydd gyflenwi ar gyfer aelodau eraill o'r tîm neu helpu gyda gweithrediadau eraill yr elusen)

Lleoliad: Mae swyddfa Elusen Aloud yn Uned 1, Regents' Court, Heol Nettlefold, Caerdydd CF24 5JQ. Mae gennym bolisi gweithio ystwyth sy'n cynorthwyo staff i weithio'n hyblyg a dewis lle i weithio sydd o gymorth i'r dasg sydd ar y gweill.

Mae'r swydd hon yn gofyn am deithio rheolaidd ledled Cymru ac o'r herwydd, rydym yn disgwyl i ddeiliad y swydd fod wedi'i leoli yng Nghymru gyda'r opsiwn o fod yn gweithio o gartref neu o'r swyddfa. Bydd gofyniad isafswm o deithio misol i Gaerdydd ar gyfer diwrnodau a chyfarfodydd tîm.

Oriau gwaith: 37.5 awr yr wythnos. Mae'r oriau gwaith yn hyblyg i gynorthwyo llesiant staff yn ogystal â diwallu anghenion busnes y sefydliad. Disgwylir i rhain gynnwys nosweithiau a phenwythnosau i gyflawni anghenion y rôl.

Gwyliau: 25 diwrnod o wyliau blynyddol, yn ogystal â gwyliau banc.

Pensiwn: Mae cynllun pensiwn cyfrannol ar gael. Rydym ar hyn o bryd yn darparu cyfraniad pensiwn o hyd at 3% o gyflog gros ar ôl cwblhau'r cyfnod prawf.

Cyfnod rhybudd: 1 mis.

Mae Elusen Aloud wedi ymrwymo i ddarparu amgylchedd cynhwysol, parchus a chroesawgar i bob aelod o staff a'r sawl y mae'n gweithio gyda nhw. Gwerthfawrogwn bob aelod o staff ac aelod posibl o staff fel unigolion unigryw, a chroesawn amrywiaeth y profiadau sydd ganddynt i'w cynnig. Nid ydym yn caniatáu gwahaniaethu. Credwn y dylai pawb gael eu trin yn gydradd waeth beth yw eu hunaniaeth o ran rhywedd, hil, anabledd, cefndir ethnig neu economaidd-gymdeithasol, oedran, amgylchiadau teuluol, statws priodasol neu bartneriaeth sifil, crefydd, cyfeiriadedd rhywiol, ailbennu rhywedd, beichiogrwydd a mamolaeth neu wahaniaeth amherthnasol arall, ac rydym wedi ymrwymo i weithio gydag amrywiaeth mewn ffordd bositif.

Mae Aloud yn croesawu ac yn annog ceisiadau gan grwpiau o bobl sydd wedi'u tangynrychioli gan gynnwys pobl Ddu, Asiaidd ac Amrywiol Ethnig, pobl F/fyddar, Anabl a Niwroamrywiol, siaradwyr Cymraeg a'r sawl sydd â nodweddion gwarchodedig. Bydd egwyddorion cystadleuaeth deg ac agored yn berthnasol, a chaiff penodiadau eu gwneud ar sail teilyngdod.

I ymgeisio: Anfonwch eich CV a dim mwy na dwy dudalen o lythyr eglurhaol yn nodi sut rydych yn ateb gofynion y rôl i recruitment@thealoudcharity.com.

Dyddiad cau derbyn ceisiadau yw 3pm ar ddydd Llun 2 Hydref 2023. Gofynnir i ymgeiswyr hefyd gwblhau ffurflen cydraddoldeb, a fydd yn cael ei dynnu ffwrdd o'r ffurflen gais wedi'i dderbyn a ni chaiff hwn effaith ar ein penderfyniad.

Caiff y cyfweliadau eu cynnal ar ddydd Mercher 11 Hydref 2023 yng Nghaerdydd. Cewch wybod a ydych wedi eich dewis i'r rhestr fer erbyn dydd Mercher 4 Hydref 2023.

Diolch am eich diddordeb yn Elusen Aloud.

Caiff eich cais ac unrhyw wybodaeth bersonol gysylltiedig eu storio a'u prosesu yn unol â'n Polisi Rheoli Data a'u dinistrio ar ôl 6 mis. Pe cewch eich penodi a'ch cyflogi gennym, caiff yr wybodaeth a gyflwynwyd ei chadw'n ddiogel a bydd yn rhan o'ch cofnod cyflogaeth.